EICH CANLLAW I DRETH Y CYNGOR 2019/2020

Gwasanaeth Cwsmer

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn am unrhyw fater sy'n ymwneud â'ch cyfrif Treth y Cyngor neu Drethi Busnes, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy:

- Ymweld â www.wrecsam.gov.uk
- Ysgrifennu at Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Trethiant Corfforaethol a Dyled, Stryt y Lampint, Wrecsam LL11 1AR
- Ffôn/E-bost:

Trethi Busnes	01978 298990	E-bost: businessrates@wrexham.gov.uk
Treth y Cyngor	01978 298992	E-bost: counciltax@wrexham.gov.uk
Budd-daliadau	01978 292033	E-bost: housingbenefits@wrexham.gov.uk

- Os hoffech chi alw heibio i siarad efo aelod o staff, dewch i: Galw Wrecsam, 16 Stryt yr Arglwydd, Wrecsam.

Mae ganddyn nhw ymgynghorwyr hyfforddedig sy'n gallu helpu gyda'ch ymholiad p'un a yw'n ymwneud â Budd-dal Tai/Treth y Cyngor, Trethi Busnes neu Dreth y Cyngor. Fel arall, fe allwch chi ffonio'r adran berthnasol ar y rhif uchod. Os ydych chi'n cael trafferth gwneud taliad, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl.

Sut a lle i dalu

Rydym yn cynnig dewis o ddyddiadau talu os byddwch yn dewis talu drwy Ddebyd Uniongyrchol. Deg taliad misol ar naill ai'r 5ed, 20fed neu ar ddiwrnod olaf y mis, neu drwy ddeuddeg taliad misol ar 4ydd diwrnod y mis.
Os hoffech drefnu Debyd Uniongyrchol, ffoniwch 01978 298992

Gallwch dalu gyda'r rhan fwyaf o gardiau credyd neu ddebyd trwy ein gwasanaeth talu dros y ffôn 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos gan ddefnyddio ffôn tôn gyffwrdd.
Ffoniwch 0300 3336510 a dilynwch y cyfarwyddiadau.

Gellir gwneud taliadau'r Dreth Gyngor yn uniongyrchol ar-lein ar wefan y Cyngor www.wrecsam.gov.uk/esiop
Mae'r holl drafodion yn ddiogel ac fe'u cefnogir gan VeriSign.

Gallwch dalu drwy eich tudalen bancio rhyngrwyd chi gan ddyfynnu ein manylion banc, sef cod didoli 20-25-77 a'r rhif 43626725.
Rhaid sicrhau eich bod yn dyfynnu rhif cyfeirnod eich Treth Gyngor.

Os hoffech dalu yn Swyddfa'r Post neu mewn lleoliad Paypoint, a fyddech gystal â gwneud cais am Gerdyn Talu. Caniatewch 14 diwrnod i'ch taliad gyrraedd eich cyfrif.
Ffoniwch 01978 298992

Beth yw'r Dreth Gyngor?

Mae'r Dreth Gyngor yn dreth leol a godir ar bob eiddo domestig ac mae iddi dair elfen:

- Tâl Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Tâl Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru
- Tâl eich Cyngor Cymuned

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n casglu'r holl daliadau hyn. Mae'n cadw'r swm sy'n ddyledus i'r Cyngor ac yn talu symiau Awdurdod yr Heddlu a'r Cynghorau Cymuned unigol a gasglwyd ar eu rhan.

Mae'r swm yr ydych yn ei dalu mewn gwirionedd yn dibynnu ar y band y mae'ch eiddo wedi'i osod ynddo. Mae'r bandiau hyn yn amrywio o 'A i I' - 'A' yw'r gost isaf ac 'I' yw'r gost uchaf.

Mae'r cyfanswm sy'n ddyledus yn cwmpasu dwy ran, 50% mewn perthynas â'r eiddo a 50% mewn perthynas â'r meddiannydd.

Mae'r hanner am yr eiddo yn daladwy dan unrhyw amgylchiadau ond gellir lleihau'r elfen bersonol os yw'r eiddo yn gartref i lai na dau o bobl. Os oes un unigolyn yn byw ar ei ben ei hun, caiff elfen bersonol y dreth sy'n daladwy ei haneru, ac os yw'r eiddo'n wag, nid yw'r elfen bersonol yn berthnasol.

Sylwer:

Yn unol â deddfwriaeth Cymru codir tâl llawn o 100% ar unrhyw eiddo yn Wrecsam sy'n wag ac wedi ei ddodrefnu, neu wedi ei adael heb ddodrefn am gyfnod hirach na 6 mis.

Petai unrhyw eiddio'n parhau'n wag am gyfnod parhaus o 12 mis gellir codi pris premiwm. Am wybodaeth bellach ynghylch hyn ewch i dudalen 5.

Sut caiff fy eiddo ei brisio?

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn gyfrifol am brisio holl eiddo domestig Cymru a Lloegr ac mae'n gosod eich eiddo mewn un o naw band eiddo.

Mae'r VOA yn asiantaeth annibynnol ac nid yw'n rhan o'r Cyngor. Mae'r VOA wedi cyfrifo gwerth eich band ar sail prisiau eiddo ar 1af Ebrill 2003. Gelwir hwn yn 'ddyddiad prisio'.

Mae'r dyddiad gosod yn sicrhau bod pob eiddo yn cael ei asesu ar amser penodol, gan sicrhau system decach i bawb.

Mae'r VOA yn cymryd i ystyriaeth maint, oedran, cymeriad a lleoliad eich eiddo a data gwerthiant o amgylch y dyddiad prisio i benderfynu ar y band cywir.

Os adeiladwyd eich eiddo ar ôl 1af Ebrill 2003, bydd y VOA yn gosod eich eiddo mewn band yn seiliedig ar beth fyddai ei werth ar y dyddiad hwnnw yn defnyddio data gwerthiant cymharol.

Mae gan bob band eiddo ystod o werthoedd. Dangosir y bandiau eiddo a gwerthoedd ar gyfer Cymru yn y tabl isod.

Band	Ystod o werthoedd
A	Dan £44,000
B	£44,001 - £65,000
C	£65,001 - £91,000
D	£91,001 - £123,000
E	£123,001 - £162,000
F	£162,001 - £223,000
G	£223,000 - £324,000
H	£324,001 - £424,000
I	£424,001 ac uwch

Mae taflen ar gael ar gais sy'n rhoi gwybodaeth bellach i chi am y weithdrefn apeliadau.

Sut i Apelio

Y Dreth Gyngor

Os ydych yn meddwl bod eich bil yn rhy uchel gan fod eich eiddo yn y band anghywir, dylech apelio i Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn Nhŷ'r Rhaglaw, Stryt y Rhaglaw, Wrecsam neu trwy ffonio 03000 505 505.

Os dymunwch apelio yn erbyn atebolrwydd, dylech ysgrifennu atom i ddechrau gan gyflwyno eich gwrthwynebiadau i'n penderfyniad.

- Yna fe ail edrychwn ar y mater a rhoi ein penderfyniad i chi
- Os ydych chi'n dal i fod yn anfodlon yna fe allwch anfon apêl at Dribiwnlys Prisio Gogledd Cymru. Ei gyfeiriad yw Adeiladau'r Llywodraeth, Bloc A(L)1, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno LL31 9RZ.

Maent yn gorff annibynnol a fydd yn gwrando ar eich achos.

Budd-daliadau Tai/Gostyngiad y Dreth Gyngor

Os ydych yn meddwl bod y penderfyniad am eich Budd-dal Tai neu Gostyngiad y Dreth Gyngor yn anghywir:

- Gallwch ofyn i ni ei egluro – ffoniwch neu ewch draw i Galw Wrecsam, 16 Stryt yr Arglwydd, Wrecsam i drafod y mater gyda ni.
- Os nad ydych yn fodlon â'r canlyniad, gallwch ofyn i ni edrych arno eto.
- Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, dylech wneud cais ysgrifenedig i'r Cyngor o fewn mis ar ôl y dyddiad y cawsoch eich hysbysu.
- Os ydych yn dal i fod yn anfodlon â phenderfyniad y Cyngor, gallwch apelio i dribiwnlys annibynnol.

Trethi Busnes

Os ydych yn meddwl bod eich bil yn rhy uchel oherwydd bod y Gwerth Trethadwy'n ormodol, dylech apelio i Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn Nhŷ'r Rhaglaw, Stryt y Rhaglaw, Wrecsam neu ffoniwch:

03000 505 505

Os dymunwch apelio yn erbyn atebolrwydd dylech ysgrifennu atom yn gyntaf gan gyflwyno'ch gwrthwynebiadau i'n penderfyniad a gofyn i ni adolygu ein penderfyniad.

Cwynion Cwsmeriaid

Os nad ydych yn fodlon â'r ffordd yr ydym wedi trin eich ymholiad, gallwch ddanfod

ebost:

counciltax@wrexham.gov.uk
businessrates@wrexham.gov.uk
housingbenefits@wrexham.gov.uk

gallwch ysgrifennu at y:

Rheolwr Gwasanaeth – Refeniw a Budd-daliadau
Adran Gyllid
Stryt y Lampint
Wrecsam LL11 1AR

gan esbonio pam nad ydych yn fodlon.

Eich hawliau o ran talu'r Dreth Gyngor

Ydych chi'n adnabod twyllwr budd daliadau?

I roi gwybod i ni am achos o dwyll ffoniwch 0800 6783722 neu ewch i www.gov.uk/report-benefit-fraud

Stamp out fraud!

Taliadau

Os dymunwch, gallwch dalu'r bil cyfan ar unwaith ar neu cyn 15 Ebrill 2019 neu mewn dwy ran ar neu cyn 15 Ebrill 2019 ac 15 Medi 2019.

Rhandaliadau

Mae gennych hawl statudol i dalu mewn deg rhandaliad o Ebrill 2019 i Ionawr 2020. Mae gan y rheiny sydd ag atebolrwydd sy'n dechrau yn hwyrach yn y flwyddyn hawl i lai o randaliadau.

Llythyr Atgoffa

Os methwch â thalu rhandaliad erbyn y 15fed o bob mis, cewch lythyr atgoffa. Os talwch y rhandaliad(au) a fethwyd o fewn saith diwrnod gallwch barhau i dalu rhandaliadau misol.
Os na lwyddwch i wneud hyn, bydd y cyfanswm llawn am y flwyddyn yn daladwy.

2il Lythyr Atgoffa

Os methwch â thalu rhandaliadau'r eilwaith, cewch lythyr atgoffa arall. Os methwch â thalu o fewn saith diwrnod byddwch yn colli'ch hawl i dalu'n fisol a bydd y balans cyfan yn daladwy

Nodyn atgoffa terfynol – 3ydd llythyr atgoffa

Os ydych eisoes wedi cael dau lythyr atgoffa ac wedi talu'r rhandaliadau a fethwyd o fewn saith diwrnod ar ôl cael y llythyrau atgoffa, ac yn methu am y trydydd tro yna bydd y swm llawn sy'n weddill yn daladwy ar unwaith.

Gwys

Ar ôl i chi golli'r hawl i dalu rhandaliadau, mae gofyn i'r Cyngor yn unol â'r gyfraith, roi gwys am y swm sy'n weddill yn ogystal â chostau. Ar hyn o bryd, mae'r costau hyn yn £40.00 am y gwys a £30.00 am y gorchymyn atebolrwydd.

Gorchymyn Atebolrwydd

Ar ôl i chi dderbyn gorchymyn atebolrwydd, mae gan yr awdurdod hawl i:

1. Wneud cais i atafael eich enillion/Cymhorthdal Incwm.
2. Anfon y beili i atafaelu eich nwyddau.
3. Gwneud cais i'r llys i'ch carcharu am beidio â thalu.

Ond gallwch hefyd gytuno gyda swyddfa'r Dreth Gyngor i dalu'r swm sy'n weddill yn wythnosol/misol cyn belled â'i fod yn ffigur derbyniol.

Cymorth a Gostyngiadau

Pobl ag Anableddau

Os oes angen ystafell ychwanegol neu le ychwanegol yn eich cartref arnoch chi neu rywun sy'n byw gyda chi oherwydd anabledd, efallai y bydd modd i chi gael gostyngiad ar eich bil. Byddai'r gostyngiad hwn yn cael ei roi trwy osod eich cartref mewn band prisio is. Os yw eich cartref ym mand A, mae'n bosibl y byddwch yn dal yn gymwys i gael gostyngiad. Cysylltwch â'r Cyngor am wybodaeth bellach os ydych yn meddwl eich bod yn gymwys.

Gostyngiadau

Os mai dim ond un oedolyn sy'n byw yn yr eiddo, bydd gostyngiad o 25% yn berthnasol. Mae gostyngiadau hefyd yn berthnasol i grwpiau penodol o bobl gan gynnwys myfyrwyr, nyrsys dan hyfforddiant, hyfforddwyr ieuenctid dan hyfforddiant a phobl â nam meddyliol difrifol. Os ydych yn meddwl bod hawl gennych gael gostyngiad, dylech gysylltu â'r Cyngor. Os ydych wedi cael gostyngiad a'ch bod yn credu ar unrhyw adeg nad oes gennych hawl iddo bellach, rhaid i chi hysbysu'r Cyngor o fewn 21 diwrnod. Os methwch â gwneud hynny, mae'n bosibl y bydd yn arwain at gosb.

Cartrefi Eithriedig

Bydd rhaid i'r mwyafrif o dai dalu'r Dreth Gyngor, ond bydd rhai'n eithriedig ac ni fydd raid iddynt dalu'r Dreth Gyngor. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo lle mai myfyrwyr yw'r unig breswylwyr, neu unigolion sydd â nam meddyliol difrifol, ac eiddo gwag sydd:

- Heb ei ddodrefnu i raddau helaeth (eithriedig am hyd at chwe mis)
- Yn perthyn i elusen (eithriedig am hyd at chwe mis)
- Wedi'i adael yn wag gan rywun sydd wedi mynd i'r carchar, ysbyty neu gartref gofal nyrsio/preswyl.
- Yn aros i brofeb gael ei rhoi (a hyd at chwe mis ar ôl i'r brofeb gael ei rhoi)
- Yn rhan o eiddo sengl gyda chartref arall, sy'n gartref i berthynas dibynnol
- Yn anaddas i fyw ynddo neu ar ganol cael gwaith trwsio/newid strwythurol (wedi'i eithrio am hyd at ddeuddeg mis)
- Wedi derbyn y swm uchaf o Ostyngiad y Dreth Gyngor

Premiwm Treth y Cyngor

O 1 Ebrill 2017, bydd y Cyngor yn gosod read cyfradd premiwm o 50% o'r swm Treth ar eiddo penodol sy'n cael eu hystyried yn 'eiddo gwag tymor hir' neu 'ail gartref'.

Ystyrir annedd yn eiddo gwag tymor hir os yw wedi bod yn wag a heb fawr o ddodrefn am gyfnod parhaol o flwyddyn. Diffinnir ail gartref fel annedd nad yw'n brif gartref i unigolyn ac sydd â llawer o ddodrefn.

Mae rhywfaint o feini prawf, os yn berthnasol, yn golygu na fyddai'r eiddo'n destun premiwm. Y rhain yw:-

- Anheddau sy'n cael eu marchnata i'w gwerthu neu eu gosod – cyfyngiad amser o flwyddyn
- Rhandai sy'n rhan o, neu'n cael eu trin fel rhan o'r prif annedd
- Annedd a fyddai'n brif breswylfa i unigolyn pe na bai'n byw mewn llety lluoedd arfog
- Lleiniau Carafanau ac angorfeydd cychod sy'n cael eu meddiannu
- Cartrefi tymhorol lle caiff preswylio gydol y flwyddyn ei wahardd
- Anheddau sy'n Gysylltiedig â Swydd

Gall y tri maen prawf cyntaf a restrwyd uchod fod yn berthnasol i eiddo gwag tymor hir. Fodd bynnag, gall y chwe maen prawf fod yn berthnasol i ail gartrefi.

A allaf leihau fy nhaliadau Treth Gyngor neu rent?

A oes gen i hawl?
Os ydych ar incwm isel neu fudd-daliadau penodol, efallai bod gennych hawl.

Ydych chi'n bensiynwr sy'n derbyn incwm isel?
Os mai ydw yw'ch ateb i'r ddau gwestiwn uchod, mae'n bosibl y bydd gennych hawl i gael help.

Credyd Cynhwysol
Os ydych chi mewn oedran gweithio ac os nad ydych yn derbyn Budd-Dal Tai ar hyn o bryd, mae'n bosibl y bydd arnoch angen gwneud cais am Gredyd Cynhwysol i'ch cefnogi a'ch helpu â chostau tai. I gael rhagor o wybodaeth, ymwelwch â www.gov.uk/universal-credit

Os ydych yn bensiynwr, dylech wneud cais i'r Cyngor am gymorth gyda Budd-dal Tai/ Gostyngiad Treth y Cyngor.

- **Y Dreth Gyngor:** Os ydych yn atebol am Y Dreth Gyngor gallech dderbyn help gyda'r cyfan neu ran o'ch bil.
- **Rhent:** Os ydych yn talu rhent i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam neu landlord preifat, mae'n bosibl y bydd gennych hawl i gael help â'ch rhent.

Sut allaf wneud Cais?

Cyfrif ar-lein newydd ar gyfer trigolion

Yn yr oes yma mae cymaint ar gael ar-lein ac mae'n gyflym, hawdd ac yn effeithlon. Pa mor dda bysai os fyddai gwasanaethau Cyngor mor syml i'w cyrchu? Wel, nawr maen nhw yn!

Fy Nghyfrif yw'r cyfrif ar-lein newydd ar gyfer trigolion Wrecsam!

Mae Fy Nghyfrif yn eich galluogi i greu cyfrif diogel, personol ar-lein lle gallwch weld eich datganiadau Treth Cyngor a Budd-daliadau, diwygio debydau uniongyrchol, gwneud cais am amryw o ostyngiadau ac eithriadau a gwneud cais hawlio budd-dal newydd.

I gofrestru ewch i
www.wrecsam.gov.uk/fynghyfrif

Tenantiaid yr Awdurdod Lleol

Cysylltwch â'ch swyddfa ystâd leol a gofyn am ffurflen fudd-daliadau i helpu i dalu rhent a'r Dreth Gyngor, neu **ffoniwch (01978) 292033.**

Tenantiaid preifat a pherchen-ddeiliaid

Cysylltwch â Galw Wrecsam, 16 Stryt yr Arglwydd, Wrecsam (01978) 292033 gan ofyn am ffurflen Lwfans Rhent a/neu Gostyngiad Treth Gyngor.

Ydych chi'n berchen-ddeiliad?
Gwiriwch eich bil Treth Gyngor. Os nad oes budd-dal wedi'i ddangos a'ch bod wedi gwneud cais, cysylltwch â ni ar unwaith.

Ydych chi'n Denant Awdurdod Lleol/Preifat?
Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r is–adran fudd-daliadau ar **(01978) 292033** i drafod y mater.

Defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Mae gan Cyngor Wrecsam ddyletswydd i ddiogelu cyllid cyhoeddus mae'n ei ddefnyddio ac mae'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn ymarfer er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol. Gall rannu gwybodaeth a ddarperir iddo â chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu cyllid cyhoeddus er mwyn atal a chanfod twyll.

Bob blwyddyn mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gofyn i ni ddarparu manylion am bob eiddo sy'n talu Treth y Cyngor, y personau sy'n atebol, y symiau taladwy - gan gynnwys gostyngiadau, eithriadau a rhai a anwybyddir fel y gellir cymharu'r wybodaeth â gwybodaeth arall a ddarperir gan gyrff cyhoeddus eraill, yn arbennig y Gofrestr Etholiadol a sefydliadau preifat.

Gellir defnyddio gwybodaeth bersonol gan y Cyngor mewn sawl ffordd, er enghraifft archwilio a chasglu dyledion (nid dim ond y Dreth Cyngor), atal twyll a dadansoddi ystadegau. Gellir rhannu gwybodaeth hefyd gyda sefydliadau/cyrff eraill yn ogystal ag unrhyw faterion penodol.

Gwariant Crynswth

2018/2019 Gwariant Crynswth	Gwasanaeth	2019/2020 Gwariant Crynswth
44,481,956	Amgylcheddol a Thechnegol	46,847,216
63,645,775	Tai a'r Economi	59,032,642
77,651,263	Gwasanaethau Cymdeithasol	80,073,248
115,777,988	Addysg ac Ymyrraeth Gynnar (gan gynnwys ysgolion)	120,208,645
31,571,954	Gwasanaethau Corfforaethol Canolog ac eraill	28,327,551
333,128,936	Cyfanswm yr holl wasanaethau	334,489,302
163,650	Cymorth Diamod	259,650
333,292,586	Cyfanswm Cyllid y Cyngor	334,748,952
52,614,000	Cyfrif Refeniw Tai	55,127,000
385,906,586	Cyfanswm Gwariant Crynswth	389,875,952
	O ble daw'r arian	
100,420,623	Fioedd, taliadau a grantiau	97,895,661
52,614,000	Renti tai	55,127,000
174,636,390	Cyllid llywodraeth Cymru	175,251,933
327,671,013	Cyfanswm Incwm	328,274,594
58,235,573	Yr hyn sydd ar ôl i'w dalu gan y Dref Gyngor	61,601,358
117,629	Llai'r swm a godir o dreuliau arbennig	119,254
58,117,944	Swm a godir gan y Dreth Gyngor Gyffredinol	61,482,104
53,280	Rhennir â: Sail trethi (cyfwerth â band D)	53,421
1,090.80	Tâl cyffredinol ym Mand D	1,150.90

Cymhariaeth Gwariant Safonol	£
Gofynion Cyllidebol	236,593,641
Asesiad Gwario Safonol (AGS) penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru	242,950,741
Gofynion y gyllideb islaw'r AGS	6,357,100

Adnoddau Cyfalaf 2019/2020



	£M
Benthyciadau	40.9
Derbyniadau cyfalaf	5.3
Grantiau a chyfraniadau	22.6

Ardollau	£
Mae cyfanswm gwariant ar gyfer 2019/20 yn cynnwys yr ardollau canlynol: Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru:	£7,015,625
Ardoll arbennig ar gyfer Goleuadau strydoedd	£119,254

Gweddillion	£
Balansau Disgwyliedig @ 31.3.2019	£7,018,000
Balansau Disgwyliedig @ 31.3.2020:	£7,018,000

Y Dreth Gyngor – Cynnydd cymharol						
	CBSW	**Treuliau Arbennig**	**Cyfanswm CBSW**	**Cynghorau Cymuned**	**Heddlu G.C**	**Cyfanswm**
2018/19	£1,090.80	£2.21	£1,093.01	£47.24	£258.12	£1,398.37
2019/20	£1,150.90	£2.23	£1,153.13	£49.40	£278.10	£1,480.63
Cynnydd	£60.10	£0.02	£60.12	£2.16	£19.98	£82.26
% Cynnydd	5.51%	0.90%	5.50%	4.57%	7.74%	5.88%

Y Dreth Gyngor am y flwyddyn ariannol 2019/2020

Council Tax Charges for financial year 2019/2020

2018/19 Sail Treth Taxbase	Cymuned Community	2019/20 Sail Treth Taxbase	Cynghorau Cymuned Community Councils		Charges at Band D / Taliadau yn ôl Band D						Band								
			2018/19 Praesept Precept	2019/20 Praesept Precept	Cymuned Community	Goleuo Arbennig Special Lighting	Mynwent Gresford Cemetery	Heddlu G.C N.W.Police	CBSW WCBC	TOTAL BAND D	A	B	C	D	E	F	G	H	I
			£	£	£	£		£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£
497	Abenbury	496	12,500	12,500	25.20			278.10	1150.90	1454.20	969.47	1131.04	1292.62	1454.20	1777.36	2100.51	2423.67	2908.40	3393.13
5,749	Acton	5,720	145,000	148,500	25.96	4.98		278.10	1150.90	1459.94	973.30	1135.50	1297.73	1459.94	1784.38	2108.80	2433.24	2919.88	3406.52
587	Bangor Isycoed	591	17,619	18,500	31.30			278.10	1150.90	1460.30	973.54	1135.78	1298.04	1460.30	1784.82	2109.32	2433.84	2920.60	3407.36
641	Bronington	650	18,000	19,000	29.23			278.10	1150.90	1458.23	972.16	1134.17	1296.20	1458.23	1782.29	2106.33	2430.39	2916.46	3402.53
2,831	Broughton	2,831	138,000	142,500	50.34			278.10	1150.90	1479.34	986.23	1150.59	1314.97	1479.34	1808.09	2136.82	2465.57	2958.68	3451.79
1,946	Brymbo	1,945	99,674	99,674	51.25			278.10	1150.90	1480.25	986.84	1151.30	1315.78	1480.25	1809.20	2138.14	2467.09	2960.50	3453.91
3,803	Parc Caia/Caia Park	3,795	212,968	221,020	58.24	4.98		278.10	1150.90	1492.22	994.82	1160.61	1326.42	1492.22	1823.83	2155.42	2487.04	2984.44	3481.84
2,257	Cefn	2,260	152,192	152,681	67.56			278.10	1150.90	1496.56	997.71	1163.99	1330.27	1496.56	1829.13	2161.70	2494.27	2993.12	3491.97
164	Ceiriog Ucha	161	2,000	2,000	12.42			278.10	1150.90	1441.42	960.95	1121.10	1281.26	1441.42	1761.74	2082.05	2402.37	2882.84	3363.31
1,677	Y Waun/Chirk	1,672	96,796	112,860	67.50	10.81		278.10	1150.90	1507.31	1004.88	1172.35	1339.83	1507.31	1842.27	2177.22	2512.19	3014.62	3517.05
1,703	Coedpoeth	1,711	176,160	186,000	108.71			278.10	1150.90	1537.71	1025.14	1195.99	1366.85	1537.71	1879.43	2221.14	2562.85	3075.42	3587.99
221	Erbistog/Erbistock	223	1,185	1,185	5.31			278.10	1150.90	1434.31	956.21	1115.57	1274.94	1434.31	1753.05	2071.78	2390.52	2868.62	3346.72
1,420	Esclusham	1,421	89,091	92,720	65.25			278.10	1150.90	1494.25	996.17	1162.19	1328.22	1494.25	1826.31	2158.36	2490.42	2988.50	3486.58
387	Glyntraian	383	18,900	18,900	49.35	12.75		278.10	1150.90	1491.10	994.07	1159.74	1325.42	1491.10	1822.46	2153.81	2485.17	2982.20	3479.23
2,632	Gresffordd/Gresford	2,640	87,750	89,000	33.71			278.10	1150.90	1462.71	975.14	1137.66	1300.18	1462.71	1787.76	2112.80	2437.85	2925.42	3412.99
3,895	Gwersyllt	3,895	190,782	219,220	56.28			278.10	1150.90	1485.28	990.19	1155.21	1320.25	1485.28	1815.35	2145.40	2475.47	2970.56	3465.65
370	Hanmer	371	5,250	8,250	22.24			278.10	1150.90	1451.24	967.50	1128.74	1289.99	1451.24	1773.74	2096.23	2418.74	2902.48	3386.22
830	Holt	843	31,000	31,000	36.77			278.10	1150.90	1465.77	977.18	1140.04	1302.90	1465.77	1791.50	2117.22	2442.95	2931.54	3420.13
229	Isycoed	226	12,300	12,300	54.42			278.10	1150.90	1483.42	988.95	1153.77	1318.59	1483.42	1813.07	2142.72	2472.37	2966.84	3461.31
855	Wledig Llangollen/Llangollen Rural	865	63,140	56,090	64.84	16.46		278.10	1150.90	1510.30	1006.87	1174.67	1342.49	1510.30	1845.93	2181.55	2517.17	3020.60	3524.03
488	Llansantffraid Glyn Ceiriog	478	25,000	30,000	62.76			278.10	1150.90	1491.76	994.51	1160.25	1326.01	1491.76	1823.27	2154.76	2486.27	2983.52	3480.77
1,764	Llai/Llay	1,763	74,228	75,743	42.96			278.10	1150.90	1471.96	981.31	1144.85	1308.41	1471.96	1799.07	2126.16	2453.27	2943.92	3434.57
687	De Maelor/Maelor South	699	18,200	18,200	26.04			278.10	1150.90	1455.04	970.03	1131.69	1293.37	1455.04	1778.39	2101.72	2425.07	2910.08	3395.09
586	Marchwiel	590	33,800	32,000	54.24			278.10	1150.90	1483.24	988.83	1153.63	1318.43	1483.24	1812.85	2142.46	2472.07	2966.48	3460.89
703	Y Mynglawdd/Minera	705	35,795	41,692	59.14			278.10	1150.90	1488.14	992.10	1157.44	1322.79	1488.14	1818.84	2149.53	2480.24	2976.28	3472.32
4,105	Offa	4,208	178,000	185,000	43.96	4.98		278.10	1150.90	1477.94	985.30	1149.50	1313.73	1477.94	1806.38	2134.80	2463.24	2955.88	3448.52
694	Owrtyn/Overton	696	48,918	51,508	74.01			278.10	1150.90	1503.01	1002.01	1169.00	1336.01	1503.01	1837.02	2171.01	2505.02	3006.02	3507.02
1,133	Penycae	1,127	70,257	70,257	62.34			278.10	1150.90	1491.34	994.23	1159.93	1325.63	1491.34	1822.75	2154.16	2485.57	2982.68	3479.79
2,749	Rhosddu	2,757	61,600	82,000	29.74	4.98		278.10	1150.90	1463.72	975.82	1138.44	1301.09	1463.72	1789.00	2114.26	2439.54	2927.44	3415.34
3,270	Rhosllanerchrugog	3,276	240,070	249,850	76.27			278.10	1150.90	1505.27	1003.52	1170.76	1338.02	1505.27	1839.78	2174.28	2508.79	3010.54	3512.29
1,812	Yr Orsedd/Rossett	1,810	67,400	65,300	36.08			278.10	1150.90	1465.08	976.72	1139.50	1302.29	1465.08	1790.66	2116.23	2441.80	2930.16	3418.52
1,781	Rhiwabon/Ruabon	1,799	80,000	80,000	44.47			278.10	1150.90	1473.47	982.32	1146.03	1309.75	1473.47	1800.91	2128.34	2455.79	2946.94	3438.09
315	Seswick/Sesswick	320	3,000	3,000	9.38			278.10	1150.90	1438.38	958.92	1118.74	1278.56	1438.38	1758.02	2077.66	2397.30	2876.76	3356.22
499	Wryddymbre/Willington/Worthenbury	494	10,395	10,395	21.04			278.10	1150.90	1450.04	966.70	1127.80	1288.92	1450.04	1772.28	2094.50	2416.74	2900.08	3383.42
53,280	**Total/Average Cyfanswm/Cyfartaledd**	**53,421**	**2,516,970**	**2,638,845**	**49.40**	**2.23**		**278.10**	**1150.90**	**1480.63**	**987.09**	**1151.60**	**1316.12**	**1480.63**	**1809.66**	**2138.69**	**2467.72**	**2961.26**	**3454.80**